Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Hydref 2008 — Rhifyn 10

Yn y Rhifyn Hwn:

•Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru •Caniatáu Rhagor o Amser i'r Prawf Newydd ar Yrru Beic Modur •Pass Plus Cymru •Anafiadau a Marwolaethau ar y Ffyrdd: Chwarter 1 •E-Ddeiseb ynghylch Amser Haf Sengl/Dwbl •Systemau Cymorth Newydd i Gwtogi ar Ddamweiniau i Lorïau • Ymgyrch o blaid Dylunio Ffyrdd yn Ddiogel •Ymchwil i Ymaddasu'n Ddeallus i Gyflymdra •Systemau Graddio Newydd gan EuroNCAP •Pobl Ifanc sy'n Gyrru wrth eu Gwaith •Ysgrifennydd Gwladol Newydd dros Drafnidiaeth •Gostyngiad yn yr Anafiadau i Blant yn sgil Deddf Newydd ynghylch Seddau i Blant mewn Ceir •Adolygiad o Arwyddion Ffyrdd

Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru

Mewn seremoni gyflwyno a gynhaliwyd yn ystod Cinio Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru ar 29 Medi, cyflwynodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones, y gwobrau i enillwyr Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru 2008 gyda chefnogaeth Gwaith Olew Chevron ym Mhenfro.

Fel rhan o Fenter a drefnwyd yn ddiweddar gan Orsaf Dân Penarth i gwtogi ar nifer y gwrthdrawiadau rhwng cerbydau ar y ffyrdd, aeth Emily Gronow, disgybl yn Ysgol St Cyres yn y dref, ati i gystadlu drwy greu neges a anelir at yrwyr a theithwyr ifanc. Ar sail y gerdd wrth-yfed-a-gyrru 'Went To A Party, Mum', creodd Emily DVD drawiadol i'w defnyddio mewn mentrau at y dyfodol. Wedi i Griw Gorsaf Dân Penarth enwebu Emily i gael Gwobr Diogelwch Ffyrdd Cymru, fe'i dewiswyd hi'n enillydd Gwobr 2008 i Unigolyn.

Mae Denise Cummings, Hebryngwraig Croesfan Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn Nhrelái, Caerdydd, wedi ymrwymo i'w gwaith ers ugain mlynedd. I'r ysgol ac i Dîm Diogelwch Ffyrdd Caerdydd, mae hi'n aelod hynod werthfawr o'r staff. I gydnabod ei hymroddiad diflino, felly, Denise gafodd y wobr i Hebryngwr Croesfan Ysgol.

Yn y categori Addysg, dewiswyd dwy ysgol am eu hymwneud â chynllun peilot arloesol sy'n rhoi gwers bwrpasol ar ddiogelwch ar y ffyrdd i bob disgybl ym mhob grŵp oedran. Mae'r ddwy ysgol, sef Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth yn Nhre-ioan ac Ysgol Gyfun y Strade yn Llanelli, wedi datblygu cynlluniau soffistigedig i Ddatblygu Diogelwch ar y Ffyrdd a sicrhau cyflwyno addysg ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn effeithiol drwy gydol bywyd pob disgybl yn yr ysgol.

Ers rhai blynyddoedd, mae sinema'r Apollo yn Port Talbot wedi cynorthwyo gwaith Uned Diogelwch Ffyrdd Castell-nedd Port Talbot. Byddan nhw'n cynnal cyfres o gwisiau ar hyd y flwyddyn ac yn llwyr gefnogi'r fenter 'Llwybr Troed at y Sêr' sy'n cydnabod plant ysgol am eu hymdrechion i gerdded i'r ysgol, a hynny drwy adael iddynt gael mynediad am ddim i Glwb Ffilmiau Amser Cinio Dydd Sul. Mae'r cynllun wedi gweld cynnydd o 50% yn nifer y disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol. I gydnabod eu hymrwymiad i ddiogelwch ar y ffyrdd, Tim Morgan, Rheolwr Sinema'r Apollo, a gasglodd Wobr Gymunedol 2008.

Yn y categori masnachol, dewiswyd Hutchings Garage am eu cymorth amhrisiadwy i daith newydd a dwyieithog gan Theatr mewn Addysg i ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf. Cynhaliwyd lansiad y daith yn eu Hystafell Arddangos ar Ystâd Ddiwydiannol Trefforest a darparodd y cwmni fan Transit i hysbysebu'r daith a chludo'r offer.

Caniatáu Rhagor o Amser i'r Prawf Newydd ar Yrru Beic Modur

Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru wedi cyhoeddi chwe mis o oedi cyn cyflwyno'r prawf ymarferol newydd i yrwyr beiciau modur. Dyddiad gwreiddiol ei gyflwyno oedd 29 Medi.

Daw hyn ar ôl i'r Asiantaeth ystyried sylwadau Cymdeithas y Diwydiant Beiciau Modur, Cymdeithas Hyfforddi Beicwyr Modur, LARSOA a grwpiau eraill sy'n ymddiddori mewn beiciau modur. Y dyddiad gweithredu newydd fydd 30 Mawrth 2009.
www.dsa.gov.uk

Pass Plus Cymru'n Dal i Dyfu

Jessica Wright, 22 oed, yw'r ail i gael gwobr chwarterol Pass Plus Cymru. Tynnwyd enw Jessica o'r rhestr o bawb a oedd wedi dychwelyd ei ffurflen werthuso ar ôl cwblhau'r cwrs. Ei Hyfforddwr Gyrru dan Pass Plus Cymru oedd Mr Ron Ingall o Ysgol Foduro Ron Ingall yn yr Eglwys Newydd. Meddai Prif Swyddog Gweithredol GEM Motoring Assist, David Williams 'Rydyn ni wrth ein bodd wrth noddi gwobrau'r fenter gyffrous hon yng Nghymru. Rwy'n siŵr y bydd Pass Plus Cymru'n helpu i wneud gyrwyr yfory yng Nghymru yn fwy ymwybodol, yn fwy ystyriol ac yn fwy diogel.

Mae Cynllun Pass Plus Cymru (PPC) yn dal i fod yn arwydd cenedlaethol o ragoriaeth ymhlith rhaglenni hyfforddi gyrwyr ifanc ar ôl iddyn nhw gymryd eu prawf, ac yn dal i dyfu wrth symud ymlaen i'w 3edd flwyddyn. Rhwng Rhagfyr 2007 a Mai 2008, cymerodd 1,424 o yrwyr y cwrs. Ers lansio'r cynllun ym Mehefin 2006, mae dros 4,000 o yrwyr newydd wedi cymryd rhan ynddo.

Delir i hysbysebu'r cynllun mewn amryw o wahanol ffyrdd. Caiff ei farchnata'n uniongyrchol yn y Sioe Frenhinol, yn Eisteddfod yr Urdd ac amrywiol sioeau'r siroedd, yn rali Wales GB, mewn cysgodfannau bysiau, drwy grwpiau ieuenctid lleol a thrwy'r radio a gwefannau, ond mae cefnogaeth yr hyfforddwyr gyrru yn dal i fod yn hollbwysig. Bydd pwyso a mesur sylwadau'r rhai sydd wedi cymryd rhan ynddo yn sicrhau bod y cynllun yn dal i ddatblygu a gwella.

Er bod cyllid ar gael i'r cynllun drwy grant arbennig gan Lywodraeth y Cynulliad, yr awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid i'r cynllun wrth i'r arian ganiatáu. Bydd hynny'n amrywio o sir i sir wrth gymryd anghenion grwpiau eraill o ddefnyddwyr y ffyrdd i ystyriaeth.

Anafiadau a Marwolaethau ar y Ffyrdd: Chwarter 1

Cafodd yr Ystadegau Cenedlaethol diweddaraf ynghylch 'Marwolaethau ac Anafiadau yng Nghymru: Amcangyfrifon Dros Dro Chwarterol, Chwarter Mawrth 2008,' a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, eu cyhoeddi ar 7 Awst 2008, yn unol â'r trefniadau a gymeradwywyd gan Awdurdod Ystadegau y Deyrnas Unedig.
Cliciwch Yma

Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi data'n chwarterol am y rhai a anafwyd neu a laddwyd ar y ffyrdd.

Dyma bwyntiau allweddol y wybodaeth:

- Lladdwyd 22 o bobl ar y ffyrdd
- Anafwyd 295 o bobl yn ddifrifol
- Cafodd 2,286 o bobl fân anafiadau
- Yr oedd cyfanswm y rhai a laddwyd neu a anafwyd, sef 1,412, ddau y cant yn uwch nag yn ystod y cyfnod blaenorol o 12 mis, a 30 y cant yn is na chyfartaledd 1994-98.
- Yr oedd nifer y plant a laddwyd neu a anafwyd yn ystod y cyfnod hwn, sef 142, bedwar y cant yn is nag yn ystod y cyfnod blaenorol o 12 mis, a 51 y cant yn is na chyfartaledd 1994-98.

E-Ddeiseb ynghylch Amser Haf Sengl/Dwbl

Amcangyfrif yr ymchwil ddiweddaraf yw y byddai mabwysiadu Amser Haf Sengl/Dwbl ym Mhrydain yn arbed rhyw 450 o farwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd, gan gynnwys rhwng 104 a 138 yn llai o farwolaethau. Mae hynny'n cadarnhau ymchwil gynharach a ddangosodd fod yr arbrawf ym 1968-71, pan ddefnyddiwyd Amser Safonol Prydain (GMT + 1) ar hyd y flwyddyn (symudwyd y clociau awr ymlaen ym mis Mawrth 1968 ac ni throwyd y cloc awr yn ôl tan fis Hydref 1971) wedi arbed rhyw 2,500 o farwolaethau ac anafiadau difrifol bob blwyddyn.

Mae RoSPA yn cefnogi e-ddeiseb ar Wefan 10 Stryd Downing o blaid Amser Haf Seng/Dwbl yn **http://petitions.pm.gov.uk/betteruseofsun**
Y dyddiad cau i lofnodion yw 3 Ionawr 2009.

Systemau Cymorth Newydd i Gwtogi ar Ddamweiniau i Lorïau

Ymateb Volvo i astudiaethau annibynnol sy'n dangos mai blinder y gyrwyr sy'n achosi 10-20 y cant o'r holl ddamweiniau i gerbydau unigol oedd penderfynu mai nhw fyddai'r gwneuthurwyr cyntaf yn Ewrop i ddatblygu system sy'n defnyddio camera i fonitro llwybr cwrs cerbyd mewn perthynas â'r marciau ar y ffyrdd.

Os bydd y teclyn **'Driver Alert Support'** yn sylwi bod y gyrru'n afreolaidd, bydd y gyrrwr yn clywed signal sain a bydd neges testun i'w gweld ar arddangosiad gwybodaeth y gyrrwr. Os bydd y patrwm afreolaidd yn parhau, caiff y gyrrwr rybudd i stopio a gorffwys.

Un o achosion cyffredin eraill damweiniau i lorïau yw'r adegau pan fydd mannau sydd o'r golwg, troeon, tywyllwch a gweledegd gwael yn cwtogi ar reolaeth y gyrrwr ar ei lori. Bydd cymorth newydd Volvo **'Lane Changing Support'** yn darparu'r 'llygad' ychwanegol â synhwyrydd radar i helpu'r gyrrwr i weld unrhyw gerbyd arall sydd o'r golwg ar ochr y teithiwr. Bydd arwydd lliw yn y piler A a chynnydd yn sŵn yr arwyddiadur yn tynnu sylw'r gyrrwr at y perygl.

"Mae gyrru o amgylch troeon yn y tywyllwch hefyd yn beth peryglus am na chaiff ymylon ffyrdd eu goleuo'n dda fel rheol," esbonia Stefan Svensson. "I wneud i'r sefyllfaoedd hyn fod yn fwy diogel, rydyn ni'n lansio goleuadau cornelu sy'n goleuo ymyl y ffordd. Fe gân nhw eu rhoi ar waith yn awtomatig gyda'r arwyddiaduron y naill ochr a'r llall i'r cerbyd os bydd y cerbyd yn teithio'n arafach na 30 cilometr yr awr (20 milltir yr awr)."
www.volvotrucks.co.uk

Ymgyrch o blaid Dylunio Ffyrdd yn Ddiogel

Yn ôl yr Ymgyrch o blaid Dylunio Ffyrdd Diogel, sef consortiwm o brif gyrff defnyddwyr y ffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a dylunio ffyrdd, gellid rhwystro traean o'r anafiadau difrifol neu'r marwolaethau ar ffyrdd Prydain dros y 10 mlynedd nesaf drwy fuddsoddi swm digon rhesymol, a hynny'n bennaf mewn arwyddion, llinellau, ymylon a rhwystrau.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae 375,000 o bobl wedi'u lladd neu wedi'u hanafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau ar ffyrdd y wlad hon, gan wastraffu 1.5% o'r Cynnyrch Domestig Gros bob blwyddyn, sef mwy na gwariant Prydain ar ysgolion cynradd a dwywaith ei gwariant ar feddygon teulu.

Dywed yr Ymgyrch o blaid Dylunio Ffyrdd Diogel y bydd y 10,000 o farwolaethau ac anafiadau difrifol bob blwyddyn yn dal i ddigwydd os na fydd y llywodraeth yn gweithredu i ddylunio ffyrdd diogel, yn enwedig ffyrdd y tu allan i'r prif drefi, sef y rhai lle bydd dwy o bob tair marwolaeth ar y ffordd yn digwydd. Digwydd y rheiny'n bennaf ar ffyrdd A – ffyrdd sy'n hawdd eu targedu.

Meddai Cadeirydd yr ymgyrch, John Dawson: "Mae system ffyrdd diogel yn golygu bod defnyddwyr y ffyrdd yn ufuddhau i'r gyfraith ar drafnidiaeth, bod gwneuthurwyr yn darparu cerbydau diogel a'r awdurdodau'n darparu ffyrdd diogel. Mae'r llywodraeth wedi bod yn tynhau'r gyfraith ynghylch trafnidiaeth, yn enwedig ynghylch gorfodi terfynau cyflymdra. Mae safon diogelwch cerbydau newydd mewn damweiniau wedi codi'n aruthrol o 2 i 4 seren NCAP ers cyflwyno'r rhaglen yn ystod y 1990au. Wrth i'r llywodraeth lunio'i strategaeth ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd y tu hwnt i 2010, rhaid i ni'n awr droi ein sylw, fel y mae gwledydd blaenllaw eraill wedi'i wneud, at gynnwys nodweddion diogelwch yn ein ffyrdd."
www.saferoaddesign.com

Ymchwil i Ymaddasu'n Ddeallus i Gyflymdra

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi'r adroddiadau ymchwil sy'n amlinellu'r manteision i ddiogelwch ar y ffyrdd a ddaw o weithredu cynllun Ymaddasu'n Ddeallus i Gyflymdra.

Mae Ymaddasu'n Ddeallus i Gyflymdra yn drefn sy'n rhoi gwybod yn y cerbyd am y terfyn cyflymdra ar y ffordd y teithir arni. Gellir defnyddio'r wybodaeth honno i ddangos y terfyn cyflymdra cyfredol yn y cerbyd a rhybuddio'r gyrrwr os bydd yn goryrru (h.y. yn cynghori); gellir ei chysylltu â pheiriant y cerbyd ac, efallai, â breciau'r cerbyd i'w arafu i gyd-fynd â therfyn cyflymdra y ffordd ond yn caniatáu i'r gyrrwr ddewis peidio ag ufuddhau (h.y. yn wirfoddol); neu ei chysylltu â'r peiriant a'r breciau heb fod posibilrwydd o'i diystyru (h.y. yn orfodol neu'n ddi-ymyrraeth).
Gallwch weld yr adroddiadau yn: http://www.dft.gov.uk/pgr/road..edadaptation/

Systemau Graddio Newydd gan EuroNCAP i roi sylw i Sgorau Isel o ran Diogelu Cerddwyr

Pan sefydlwyd Euro NCAP ym 1997, doedd hi ddim yn ymddangos y gallai unrhyw gerbyd byth gael pum seren am ddiogelu teithwyr o oedolion. Ddeg mlynedd yn ddiweddarach, bydd 97% o'r 34 o fodelau ceir a brofir ac a asesir gan Euro NCAP mewn blwyddyn yn ennill pedair neu bum seren. Er hynny, mae Euro NCAP yn dal i gredu bod rhai meysydd diogelwch y mae angen i wneuthurwyr ceir roi blaenoriaeth iddynt er mwyn arbed bywydau.

Er cystal y canlyniadau o ran diogelu teithwyr, ni chaiff unrhyw wneuthurwr ceir bedair seren am ddiogelu cerddwyr. Mewn profion y llynedd, ni chafodd 67% o'r modelau ond dwy seren am hyn, a hynny er bod deddfwriaeth ar y gorwel. Mae Euro NCAP yn poeni bod llawer o wneuthurwyr ceir yn mynd ati i sicrhau sgorau uchel o ran diogelu teithwyr er mwyn denu prynwyr, ond nad ydyn nhw'n buddsoddi digon i sicrhau diogelwch mewn meysydd eraill. Gan fod Euro NCAP yn credu bod prynwyr, wrth ddewis car newydd, yn ymddiddori yn y diogelwch a gynigir i bob teithiwr a hefyd i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd, mae'n datblygu system newydd a fydd yn gwobrwyo diogelwch cyffredinol cerbyd. Bydd y radd gyffredinol a gaiff car yn dangos faint o amddiffyniad a gynigir i deithwyr sy'n oedolion ac yn blant yn ogystal ag i gerddwyr ac, am y tro cyntaf, yn ystyried potensial diogelwch uwch-dechnolegau, fel rheolaeth electronig ar sefydlogrwydd, i helpu gyrwyr. Ehangir asesu'r diogelwch a gaiff teithwyr o oedolion i gynnwys profi am anafiadau atchwipio. Caiff canlyniadau'r cerbydau cyntaf a brofir o dan y drefn newydd hon eu rhyddhau ym mis Chwefror 2009.

www.euroncap.com

Astudiaeth Fawr o Ddiogelwch Pobl Ifanc sy'n Gyrru wrth eu Gwaith

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau wedi lansio astudiaeth ymchwil fawr sy'n ceisio helpu gyrwyr ifanc i fod yn ddiogel wrth iddyn nhw yrru fel rhan o'u gwaithjob.

RoSPA's Mae prosiect RoSPA ar Bobl Ifanc sy'n Gyrru wrth eu Gwaith yn gofyn barn rheolwyr sy'n cyflogi gyrwyr 17-24 oed. Diben hynny yw sicrhau gwell dealltwriaeth o'r problemau diogelwch sy'n codi pan fydd y gweithwyr hynny'n gyrru er mwyn gwneud pethau fel dosbarthu nwyddau, mynd i gyfarfodydd neu deithio o safle i safle.

Gallwch gyrchu'r holiadur i gyflogwyr yn: **www.rospa.com/roadsafety/youngdriversatwork/** tan fis Rhagfyr.

Gyrwyr ifanc a gyrru mewn cysylltiad â'r gwaith yw dwy o'r sialensiau mwyaf i ddiogelwch ar y ffyrdd heddiw. Mae'r ffigurau'n dangos bod modurwyr ifanc mewn mwy o berygl na gyrwyr mwy profiadol o gael eu lladd neu eu hanafu ar y ffyrdd. Amcangyfrifir hefyd fod un o bob tri gwrthdrawiad yn cynnwys cerbyd a yrrir wrth weithio. Mae hynny'n golygu y caiff rhyw 200 o bobl wrth eu gwaith eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Prydain bob wythnos.
Fel rhan o brosiect RoSPA, gofynnir i gyflogwyr gymharu ffyrdd gyrwyr ifanc a gyrwyr mwy profiadol o yrru, gan gynnwys eu ffyrdd o asesu risgiau, cynllunio'u taith, defnyddio tanwydd yn effeithlon a bod yn effro i beryglon blinder.
Fe'u holir hefyd ynghylch: unrhyw bolisi sydd ganddyn nhw ar waith, megis isafswm oedran i yrwyr; pa mor dda y mae'r drefn bresennol o hyfforddi a phrofi gyrwyr yn paratoi pobl i yrru wrth eu gwaith; ac a fyddai hyfforddi gyrwyr ar ôl iddyn nhw lwyddo yn y prawf yn ddefnyddiol yn y gweithle.
Ceisir barn y gyrwyr ifanc eu hunain mewn grwpiau pwrpasol a gynhelir yn ystod y prosiect – prosiect a ariannir gan yr Adran Drafnidiaeth.

Ysgrifennydd Gwladol Newydd dros Drafnidiaeth

Mae'r Gwir Anrh. Geoff Hoon AS wedi'i benodi'n Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafnidiaeth.

Mae'n AS dros Ashfield ers 1992 ac wedi bod yn Brif Chwip ac yn Ysgrifennydd Seneddol i'r Trysorlys. Mae ef wedi dal amryw o swyddi yn y Cabinet, gan gynnwys swyddi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ac Arweinydd Tŷ'r Cyffredin. Mae Mr Hoon hefyd wedi bod yn Weinidog dros Ewrop, yn Ysgrifennydd Seneddol ac yn Weinidog Gwladol yn Adran yr Arglwydd Ganghellor ac wedi treulio cyfnod yn y Swyddfa Dramor fel y Gweinidog Gwladol dros Asia, y Môr Tawel, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.

Lleihau'r Anafiadau i Blant yn sgil Deddf Newydd ynghylch Seddau i Blant mewn Ceir

Yn ôl yr ystadegau swyddogol, gwelwyd gostyngiad o fwy na mil yn nifer y plant dan 12 a anafwyd mewn damweiniau ceir ym Mhrydain yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf ers cyflwyno'r ddeddf newydd ynghylch seddau mewn ceir.

Croesawodd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau y newyddion fel prawf bod y ddeddfwriaeth yn gweithio ac yn helpu i leihau poen a dioddefaint i blant a'u teuluoedd. Ym mis Medi 2006 cyflwynwyd deddf newydd a'i gwnâi'n orfodol i blant dan 12 ac o dan 4 troedfedd 5 modfedd (1.35 metr) o daldra ddefnyddio seddau ceir i blant, neu seddau codi.
Yn 2005, y flwyddyn olaf cyn i'r ddeddf ddod i rym, anafwyd 7,033 o blant dan 12 mewn ceir, a chafodd 326 ohonyn nhw eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol. Y llynedd, yr oedd y nifer a anafwyd wedi gostwng i 5,927, a 271 o'r rheiny wedi'u lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Arwyddion Traffig ym Mhrydain – lansio'r adolygiad mwyaf mewn 40 mlynedd

Mae'r Gweinidog Trafnidiaeth, Rosie Winterton, wedi galw ar y modurwyr, y beicwyr, y cerddwyr, yr awdurdodau priffyrdd a'r sefydliadau ffyrdd sy'n awyddus i gael dweud eu dweud ynghylch sut olwg fydd ar ein ffyrdd yn y dyfodol i gymryd rhan yn yr adolygiad mwyaf o arwyddion ffyrdd Prydain ers 40 mlynedd.

Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod arwyddion traffig yn datblygu'r un mor gyflym â'r dechnoleg ddiweddaraf, yn helpu i gwtogi ar dagfeydd ac allyriadau, ac yn cadw traffig i symud yn ddiogel ac yn effeithlon heb orlenwi'n strydoedd.
Dyma rai o nodau'r adolygiad:

- Ystyried pwerau newydd i gwtogi ar orlenwi strydoedd – a sicrhau tynnu arwyddion diangen;
- Ystyried technolegau newydd ym maes arwyddion ffyrdd a all ddarparu dulliau newydd o reoli llif y traffig;
- Rhoi gwell gwybodaeth am y ffyrdd – fel y newyddion diweddaraf am deithio – i fodurwyr allu gwneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u teithiau;
- Dangos bod arwyddion effeithiol yn gallu cynyddu diogelwch y ffyrdd a lleihau damweiniau;
- Cynyddu dealltwriaeth defnyddwyr y ffyrdd o arwyddion a signalau traffig.

Meddai Rosie Winterton:
"Gan fod amodau ar y ffyrdd wedi newid yn rhyfeddol dros y blynyddoedd, mae angen i arwyddion ffyrdd newid hefyd i roi'r wybodaeth orau bosibl i holl ddefnyddwyr y ffyrdd.
"Mae'n hollbwysig i ni helpu modurwyr, beicwyr a cherddwyr i ddeall sut mae defnyddio'n ffyrdd – gan gynyddu diogelwch ar y ffordd a helpu i gwtogi ar dagfeydd a CO_2 – heb orlenwi'n strydoedd ag arwyddion diangen."

Bydd defnyddwyr y ffyrdd, yr awdurdodau priffyrdd a'r mudiadau sy'n ymddiddori yng ngolwg a chynnwys ein strydoedd yn chwarae rôl allweddol yn y grŵp llywio a fydd yn arwain yr adolygiad.

www.pacts.org.uk

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2008 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600

RoSPA
The Royal Society for the Prevention of Accidents